## CŴN - Y GYFRAITH

Mae gan berchenogion cŵn gyfrifoldeb cyfreithiol dros eu hanifeiliaid anwes.

Mae gofyn i berchnogion cŵn:

- **ddarparu diet digonol, a sicrhau bod digon o ddŵr ffres, glân ar gael trwy'r amser**
- **amddiffyn y ci rhag afiechyd**
- **gadael i'r ci ymddwyn yn naturiol**
- **darparu llety addas ac amodau byw sy'n rhydd rhag peryglon**
- **amddiffyn y ci rhag ofn a dioddefaint.**

Gall peidio â chydymffurfio â'r gofynion hyn o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 arwain at ddedfryd o garchar neu ddirwy o hyd at £20,000, a gwaharddiad rhag cadw anifeiliaid.

- **Rhaid i'r ci wisgo coler a thag mewn man cyhoeddus, a dylai'r tag ddangos enw a chyfeiriad y perchennog.**

Gall peidio â chydymffurfio â'r gofyniad yma o dan y Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992 arwain at ddirwy o hyd at £5,000.

- **Cadw'r ci dan reolaeth briodol: gall trosedd gael ei chyflawni hyd yn oed os na chaiff rhywun ei anafu cyn belled ag y bo pryder rhesymol y gallai rhywun gael ei anafu.**

Gall peidio â chydymffurfio â'r gofyniad yma o dan y Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 arwain at ddedfryd o hyd at chwe mis yn y carchar, dirwy o hyd at £5,000, gosod gorchymyn rheoli ar y ci sy'n gofyn bod tennyn a/neu safnrhwym ar y ci trwy'r amser pan fydd allan a/neu'n gofyn bod y ci yn cael ei ysbaddu. Gall y perchennog a'r person sy'n gyfrifol am y ci ar y pryd fod yn atebol.

## LLETY TENANTIAID

Os ydych chi'n byw mewn llety tenantiaid, gwiriwch a oes angen i chi gael caniatâd ysgrifenedig gan eich landlord.

## AMODAU LANDLORDIAID

Bydd landlord eisiau i chi gymryd gofal rhesymol o'ch anifail anwes a gall osod amodau fel:

- **uchafswm o ddau anifail mewn unrhyw eiddo**
- **gardd breifat**
- **cofnodi manylion eich ci trwy luniau/dulliau olrhain fel microsglodion**
- **cadw eich ci ar dennyn a dan reolaeth trwy'r amser mewn ardaloedd cymunedol**

Yn ogystal, bydd gofyn i chi rwystro eich ci rhag:

- **achosi niwsans, megis trwy wneud gormod o sŵn**
- **dychryn neu frifo pobl**
- **difrodi eich cartref neu unrhyw eiddo y mae'r cyngor yn berchen arno**

Gellir tynnu caniatâd yn ôl os bydd unrhyw rai o'r amodau uchod yn cael eu torri.

I gael rhagor o wybodaeth, sganiwch yma:






## THE LAW ON DOGS

Dog owners have a legal responsibility for their pets.

Dog owners are required to:

- **provide an adequate diet with fresh, clean water always available**
- **protect the dog from ill health**
- **allow the dog to express natural behaviour**
- **provide suitable housing and living conditions free from hazards**
- **protect the dog from fear and suffering.**

Penalty for failing to comply with these requirements under the Animal Welfare Act 2006 can result in a prison sentence or a fine of up to £20,000 and a ban from keeping animals.

- **Have the dog wearing a collar and tag in a public place, with the tag showing the name and address of the owner.**

Penalty for failing to comply with this requirement under the Control of Dogs Order 1992 can result in a fine of up to £5,000.

- **Have the dog under proper control: an offence can be committed even without an injury occurring so long as there is reasonable concern that someone could be injured.**

Penalty for failing to comply with this requirement under the Dangerous Dog Act 1991 can result in a prison sentence of up to six months, a fine of up to £5,000, a control order placed on the dog requiring a lead and/or muzzle to be on the dog at all times whilst out in public and/or an order requiring the dog to be neutered. Both the owner and the person in charge of the dog at the  time may be liable.

## TENANTED ACCOMMODATION

If you are living in tenanted accommodation, find out if you need to obtain written permission from your landlord.

## LANDLORD CONDITIONS

A landlord will want you to take reasonable care of your pet and may set conditions such as having:

- **only up to two animals in any one property**
- **a private garden**
- **details of your dog recorded by photograph/ tracing methods like chipping**
- **your dog on a lead and under control at all times in communal areas**

In addition, you will be required to prevent your dog:

- **causing a nuisance, such as by making excessive noise**
- **frightening or hurting people**
- **damaging your home or any council property**

Permission may be withdrawn if any of the above conditions are breached.

For more information scan here:




